Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar

Llys Cadfan

Llys Cadfan
Ffordd Brynhyfryd
Tywyn
LL36 9HG

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

This report is also available in English

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

27 Hydref 2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.
Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Llys Cadfan

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb nyrsio
Darparwr cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd
Lleoedd cofrestredig	33
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Ydy

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Crynodeb

Mae Llys Cadfan yn nhref arfordirol Tywyn. Cyngor Gwynedd yw'r darparwyr. Yr unigolyn cyfrifol yw Mr Aled Davies ac mae rheolwr â chymwysterau addas sydd wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae pobl yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn Llys Cadfan. Dywedasant wrthym fod y gweithwyr gofal yn gyfeillgar a charedig. Mae perthnasau yn fodlon ar y ffordd mae'r staff yn darparu gofal a chymorth ac ar y ffordd mae'r cartref yn cael ei gynnal. Mae pobl yn cael eu cefnogi gan staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau, hobïau a diddordebau. Mae cynlluniau personol yn darparu manylion da ynglŷn â sut i ddiwallu anghenion pobl. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer diogelu pobl a staff. Mae'r adeilad wedi ei leoli ar ei dir ei hun ac yn agos at gyfleusterau lleol.

Mae staff yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr a'r dirprwy reolwr. Mae staff yn dilyn proses recriwtio sy'n cynnwys yr holl wiriadau angenrheidiol ac yn derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer bod yn fedrus yn eu rolau. Mae prosesau datblygu staff mewn perthynas â goruchwylio ac arfarniadau ar waith.

Mae'r cartref yn lân ac yn daclus gyda mesurau ymarfer da i atal a rheoli heintiau ar waith.

Llesiant

Dywedodd pobl wrthym eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu trin gydag urddas a pharch. Dywedasant fod y staff yn ymateb i'w anghenion a'u hoffterau. Mae pobl yn ymlacio yng nghwmni'r gweithwyr gofal, sydd yn cyfathrebu mewn ffordd gyfeillgar a gofalgar, yn rhyngweithio ar sail bersonol. Mewn trafodaethau gyda'r staff, maent yn dangos eu bod nhw'n deall anghenion y bobl maent yn eu cynorthwyo. Mae gan bobl gyfleoedd i dderbyn cymorth oddi wrth staff sy'n siarad Cymraeg. Mae'r staff yn cyfathrebu yn effeithiol â phobl wrth ddilyn canllawiau cyfredol yn ymwneud â'r defnydd o gyfarpar diogelu personol.

Gall pobl wneud y pethau sydd yn bwysig iddynt. Dywedodd pobl wrthym eu bod nhw'n gallu parhau â'u gweithgareddau dyddiol a'r dewisiadau a ffefrir ganddynt ynglŷn â sut i dreulio eu diwrnodau. Gwelsom dystiolaeth mewn ffotograffau o bobl yn mwynhau'r cyfleusterau a'r gweithgareddau sydd ar gael. Mae pobl wedi cadw cysylltiad gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau drwy ddefnyddio'r ffôn neu'r cyfryngau cymdeithasol. Trefnir ymweliadau i'r cartref yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dywedodd pobl y byddent yn siarad â'r staff pe bai ganddynt unrhyw broblemau, a byddai'r staff yn gwrando arnynt.

Rhoddir gofal sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl. Maent yn brysur ac yn cael cyfleoedd am ysgogiad. Dywed perthnasau wrthym fod cyfathrebu da gyda'r rheolwr a'r staff, a gwnaethant gymeradwyo'r tîm staff am rannu gwybodaeth yn ôl yr angen. Mae pobl a'u perthnasau yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau cyn ac ar ôl i bobl symud i mewn i'r cartref. Mae'r staff yn ymdrechu i ddod o hyd i gymaint o wybodaeth â phosib er mwyn cynnal canlyniadau cadarnhaol i'r bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r gwaith o gasglu'r wybodaeth hon yn broses barhaus gyda dogfennau gofal yn cael eu hadolygu ar sail wythnosol neu'n gynt yn ôl y gofyn. Mae perthnasau yn cael cyswllt rheolaidd gyda'r cartref ac yn cael eu cynnwys yn yr adolygiadau.

Amddiffynnir pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae mesurau ar waith i ddiogelu pobl rhag y risg o niwed. Mae asesiadau risg unigol yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau personol ac yn cael eu hadolygu yn ôl yr angen. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn gwybod pa gamau i'w cymryd os oes ganddynt unrhyw bryderon am unigolyn/unigolion. Edrychasom ar gofnodion hyfforddi staff, sy'n dangos bod gweithwyr gofal yn derbyn hyfforddiant i sicrhau diogelwch pobl; roedd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys diogelu, symud a thrin, a meddyginiaeth.

Cefnogir pobl i fod mor iach â phosib gan y gweithwyr gofal. Arsylwom ar y staff yn cynorthwyo pobl, a dywedodd pobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo bod y gofal maent yn ei dderbyn yn dda. Mae bwydlenni a arddangosir yn dangos dewis ar gyfer pob pryd o fwyd a weinir. Roedd arsylwadau yn ystod amser cinio yn cadarnhau hyn. Dywedodd y bobl wrthym eu bod nhw'n mwynhau'r bwyd. Caiff pobl eu hatgyfeirio'n

briodol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac mae'r nyrsys ardal wedi cynnal ymweliadau yn ôl yr angen yn ystod y pandemig.

Mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion pobl sydd yn preswylio yno. Mae'r amgylchedd wedi'i drefnu'n dda ac mae gan bobl amrywiaeth o ardaloedd o fewn y gwasanaeth ble maent yn dewis treulio eu hamser. Mae llawer o le yn yr uned arbenigol ac mae ardal ddiogel y tu allan iddi lle gall pobl gerdded yn rhydd heb risg o niwed.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Gofal a Chymorth

Mae pobl a'u perthnasau yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu cynlluniau personol ac mae'r rhain yn cynnwys canlyniadau personol mewn perthynas ag iechyd a llesiant pobl. Mae'r cynlluniau personol ac asesiadau risg yn adlewyrchu sut byddai pobl yn hoffi cael eu cynorthwyo. Adolygir y cynlluniau personol bob tri mis yn ôl yr angen. Dywedodd perthnasau wrthym eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses adolygu ac yn cael gwybod am unrhyw bryderon iechyd neu gymdeithasol ynghylch eu perthynas. Dywedodd gweithwyr iechyd proffesiynol wrthym eu bod hefyd yn rhan o'r broses adolygu. Mae'r wybodaeth yn y cynlluniau personol a'r dogfennau gofal yn ailadroddus mewn rhannau. Mae'r ddogfen "Fy Mywyd, Fy Ngofal" yn datgan ei bod i'w chwblhau 48 awr ar ôl i rywun gael ei dderbyn. Roedd un a welwyd dyddiedig 18 Medi 2021 ond roedd yr unigolyn wedi cael ei dderbyn i'r cartref ar 29 Ionawr 2019. Dylid llofnodi a rhoi dyddiad ar ddogfennau ar y diwrnod y maent yn cael eu cwblhau.

Mae perthnasau yn fodlon ar y ffordd y mae agweddau o ofal a chymorth yn cael eu darparu ac ar y ffordd mae'r cartref yn cael ei reoli. Clywsom am y cymorth a roddir gan weithwyr gofal wedi eu hyfforddi, sydd â'r amser i gynorthwyo pobl gyda'u hanghenion personol, llesiant ac iechyd. Mae amserau bwyd yn drefnus gyda staff y gegin yn gweini'r prydau. Mae byrbrydau ganol bore wedi'u cyflwyno, sydd yn sicrhau bod pobl sydd yn codi yn hwyrach neu wedi colli brecwast yn cael lluniaeth a rhywbeth i'w fwyta cyn amser cinio.

Darperir gweithgareddau a chyfleoedd priodol a rheolaidd i bobl ddilyn diddordebau neu hobïau. Gwelsom raglenni gweithgareddau wythnosol yn cael eu harddangos, staff yn annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau unigol, a staff yn parchu dewis pobl i eistedd a darllen neu wylio'r teledu. Mae'r staff yn rhyngweithio â phobl mewn ffordd ystyrlon ac maent yn ymwybodol o hoffterau unigolion mewn perthynas ag adloniant. Cedwir cofnodion o weithgareddau ac mae gan y cartref ffotograffau o weithgareddau a thudalen ar y cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth am y gweithgareddau amrywiol sy'n cael eu trefnu.

Mae prosesau ar waith i ddiogelu pobl. Mae asesiadau risg unigol ar waith ac mae staff yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud yr atgyfeiriad perthnasol i'r awdurdod lleol os oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â'r bobl maent yn gweithio gyda nhw. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym eu bod nhw'n ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu a bod staff yn derbyn hyfforddiant diogelu cyfredol.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid ac yn rheoli risgiau o ran heintiau. Ers pandemig y coronafeirws, mae wedi cyflwyno gwybodaeth ychwanegol am y rhagofalon pellach sydd eu hangen i'r staff. Mae arferion diogel yn cael eu cynnal ac mae'r cyfarpar diogelu personol priodol yn cael ei ddarparu i'r staff roi gofal i bobl yn ddiogel. Cadarnhaodd staff gofal fod ganddynt fynediad at gyfarpar diogelu personol digonol a

dywedodd pobl sy’n derbyn gwasanaeth eu bod nhw’n teimlo’n ddiogel gyda'r arferion cyfredol sydd ar waith. Mae ymweld â'r cartref yn parhau, yn dilyn canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru a pholisi ymweld y cartref, sydd wedi cael ei adolygu yn ystod y pandemig.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Yr amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn gartrefol ac yn gynnes. Mae'r ystafelloedd gwely ac ardaloedd cymunol wedi eu haddurno a'u dodrefnu i safon dda ac mae'r bobl yn cael eu hamgylchynu gyda'u heitemau personol a'r pethau sydd yn berchen iddynt. Mae cymhorthion ac addasiadau i gynorthwyo pobl i gael mynediad at yr holl ardaloedd. Mae polisi drws clo ar waith ac fe wiriodd gweithwyr gofal ein statws COVID-19 a phwy oeddem ni cyn cael mynediad. Gofynnir i ymwelwyr â'r cartref ddilyn canllawiau cyfredol ynglŷn â rheoli heintiau. Mae gan y cartref uned arbenigol i ddarparu gofal a chymorth i bobl sy'n byw gyda dementia.

Gall pobl fod yn hyderus bod trefniadau rheoli heintiau effeithiol ar waith. Mae polisi rheoli heintiau ar gael i bob aelod o staff ei ddilyn, ac mae'r mwyafrif o'r staff wedi cael hyfforddiant rheoli heintiau. Mae cyfundrefnau glanhau ar waith i leihau achosion o groes-halogi cymaint â phosibl, er mwyn helpu i atal a rheoli heintiau. Mae ardaloedd cyfarpar diogelu personol penodedig o gwmpas y cartref i bobl a staff gael mynediad i'r cyfarpar hwn.

Adroddiad terfyn
gyhoeddi

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau ar waith i gynnal goruchwyliaeth o'r gwasanaeth. Mae prosesau ar waith i fonitro safon y gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi cefnogi'r gwasanaeth a'r rheolwyr trwy'r pandemig diweddar; mae hyn wedi digwydd drwy gyfarfodydd rhithiol a galwadau ffôn. Yn ôl y rheoliadau, mae'n ofynnol i'r unigolyn cyfrifol siarad â phobl a staff o leiaf bob tri mis. Nid yw hyn wedi digwydd ar sail bob tri mis yn ystod y pandemig. Mae rheolwr ardal yr awdurdod lleol yn cefnogi'r rheolwr a'r tîm o staff trwy gynnal ymweliadau a galwadau ffôn / cyfarfodydd rhithiol rheolaidd. Rydym wedi cynghori Cyngor Gwynedd bod angen gwelliannau mewn perthynas ag ymweliadau rheoleiddio (Rheoliad 73) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella a disgwyliwn i'r darparwr weithredu, a chymerir camau i fynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Mae pobl yn cael eu cynorthwyo gan wasanaeth sydd â nifer digonol o staff sydd yn ddigon cymwys ac sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd a'r sgiliau i ddiwallu eu hanghenion. Dywedodd y staff eu bod nhw'n cael eu cefnogi gan y rheolwr a'r dirprwy reolwr, a'u bod nhw'n rhan o raglen datblygu staff yn cynnwys hyfforddiant, goruchwyliaeth ac arfarniadau blynyddol.

Gwelsom fod cofnodion yn dangos bod gwiriadau gofynnol yn cael eu gwneud cyn cychwyn mewn cyflogaeth. Mae gan y darparwyr broses fetio a dewis ar waith, gan gynnwys cael gafael ar eirdaon. Yn sgil cyfyngiadau'r llywodraeth, nid yw llawer o hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi digwydd ers y pandemig. Darperir cyfleoedd dysgu amgen i'r staff, yn cynnwys hyfforddiant gorfodol a phenodol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant cymorth cyntaf, symud a thrin, diogelu a gofal dementia. Mae rotâu staff yn dangos bod staff digonol ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu dyrannu i weithio ymhob ardal o'r cartref ac mae'r rhai sydd yn gweithio yn yr uned dementia arbenigol wedi cael hyfforddiant arbenigol.

Mae gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben, sy'n disgrifio'n glir ar gyfer pwy mae'r gwasanaeth a sut y bydd yn cael ei gyflenwi. Mae pobl yn cael gwybodaeth sydd yn disgrifio'r gwasanaeth ac yn rhoi gwybod iddynt sut i wneud cwyn. Nid yw'r datganiad o ddiben yn bodloni deddfwriaeth gyfredol ynglŷn â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r rheolwr yn adolygu'r ddogfen i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion deddfwriaeth.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Adroddiad terfynol heb ei wirio

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
73	Mae trefniadau ar waith i gynnal goruchwyliaeth o'r gwasanaeth. Mae prosesau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth ac mae cymorth parhaus yn cael ei ddarparu gan swyddogion yr awdurdod lleol i wella'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi cefnogi'r gwasanaeth a'r rheolwyr trwy'r pandemig diweddar; mae hyn wedi digwydd drwy gyfarfodydd rhithiol a galwadau ffôn. Yn ôl y rheoliadau, mae'n ofynnol i'r unigolyn cyfrifol siarad â phobl a staff o leiaf bob tri mis. Nid yw hyn wedi digwydd ar sail bob tri mis yn ystod y pandemig. Mae rheolwr ardal yr awdurdod lleol yn cefnogi'r rheolwr a'r tîm o staff trwy gynnal ymweliadau a galwadau ffôn / cyfarfodydd rhithiol rheolaidd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.	Newydd

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Dyddiad cyhoeddi Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete'

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi